# Fforwm Symudedd Diwylliannol 2024, Caernarfon ac ar-lein

**DYDD IAU 25 EBRILL A DYDD GWENER 26 EBRILL 2024**

# Y paneli a'r adnoddau

Ffrydio byw @ HowlRound, https://howlround.com/upcoming-livestreams
Amseroedd Prydain yw'r holl amseroedd a ddangosir. Ewch i weld eich parth amser cyfatebol chi gan ddefnyddio https://www.piliapp.com/time-now/converter.
Mae dolenni i gofrestru ar gael fan hyn (ar waelod y dudalen).

**Y brif araith, dydd Iau 25 Ebrill 2024, 14.30 UTC**

Mae gan **Magie Russell** dros ddeugain mlynedd o brofiad ar bob lefel ym myd y celfyddydau, treftadaeth ddiwylliannol a'r diwydiannau creadigol, a hynny yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Cafodd yrfa helaeth ac amrywiol, gan gynnwys ym meysydd theatr gorfforol arbrofol, gwaith yn y gymuned, cynhyrchu digwyddiadau cerddorol mawr, gofalu am leoliadau, a chyfnod o bymtheg mlynedd fel cynhyrchydd ffilm a theledu a arweiniodd at ennill gwobrau niferus. Yn BBC Cymru Wales, bu'n aelod o'r uwch dîm rheoli, yn gyfrifol am yr adran ddrama, ac yn Bennaeth Talent. Magwyd Maggie yn Llanrhymni, Caerdydd, a graddiodd o Brifysgol Warwig. Yn fwy diweddar, cwblhaodd hyfforddiant proffesiynol ôl-raddedig er mwyn dod yn seicotherapydd.

### Yr adroddwr dros y ddau ddiwrnod

**Yohann Floch** yw Cyfarwyddwr Gweithrediadau On the Move.
Mae hefyd yn rheoli FACE, platfform adnoddau sy'n hwyluso rhaglenni meithrin capasiti Ewropeaidd ym maes y celfyddydau perfformio cyfoes. Gan weithio i sefydliadau celfyddydol a diwylliannol annibynnol, mae Yohann wedi dylunio, cydlynu neu gyfrannu at nifer o brosiectau cydweithio Ewropeaidd a chynlluniau peilot ar gyfer cydweithio rhyngwladol dros y blynyddoedd. Yn eu plith mae'r prosiectau diweddar, AAA (dan arweiniad IMMART), iCoDaCo (dan arweiniad ilDance), Learning Trajectories (dan arweiniad Eunia) a SHIFT (dan arweiniad y Cyngor Cerddoriaeth Ewropeaidd). Bu'n arbenigwr allanol i gyrff llywodraethol a sefydliadau preifat, ac mae wedi arwain neu wedi cyd-ysgrifennu astudiaethau Ewropeaidd, gan gynnwys yr adroddiadau am lif symudedd diwylliannol i On the Move.

# ‘Datblygu proffesiynol rhyngwladol: mannau gadael, mannau cyrraedd’

**Dydd Iau 25 Ebrill 2024, 15:00–16:15 UTC**

Theatr, Galeri Caernarfon ac ar-lein

Mae dolenni i gofrestru ar gael fan hyn (ar waelod y dudalen).

Bydd datblygiad proffesiynol rhyngwladol yn digwydd ar ffurf siwrnai ac arni gamau hollbwysig sy’n fannau gadael ac yn fannau cyrraedd. Mae’r cysyniad o ddatblygiad proffesiynol ei hun yn awgrymu taith tuag at gyrchfan, gan ein cymell i gwestiynu’r pen draw hwn. Ym mha gyd-destun y byddwn ni’n datblygu? I ba gyfeiriad rydyn ni’n dymuno datblygu? Mae’r dimensiwn rhyngwladol yn y byd diwylliannol yn cael ei gydnabod fel ffynhonnell ocsigen, sy’n cynnig safbwyntiau amrywiol a rhagolygon economaidd. Serch hynny, mae amlygrwydd modelau rhyngwladoli o’r brig i lawr, yn enwedig ar lefel polisi, yn ein gwahodd i graffu ar hyn.

Yn fwyfwy, bydd cwestiynau’n codi ynghylch pwy sy’n gosod yr agendâu gwleidyddol (yng nghyd-destun gweithredu ym maes yr hinsawdd, er enghraifft), ac a yw rhai agendâu gwleidyddol yn mynd ati’n anfwriadol i atgyfnerthu neo-drefedigaethedd ac anghydbwysedd mewn grym. Ym maes rhaglenni datblygu proffesiynol, bydd materion sy’n ymwneud â’r gallu i achub ar gyfleoedd rhyngwladol, sy’n arbennig o nodedig mewn perthynas ag anawsterau wrth gael fisâu, yn cydblethu â chwestiynau am addysg, proffesiynoldeb, statws a chynaliadwyedd. Mae’r tensiynau hyn yn herio’r hen fodelau rhyddfrydol a oedd yn canolbwyntio ar allforio, gan ein cymell i gnoi cil am y man cychwyn, am amcanion unigolion ac amcanion torfol, ac am y gyrchfan y gobeithir ei chyrraedd ar unrhyw siwrnai ddysgu. Yn y cyd-destun hwn, mae ‘twf’ unigolion a ‘thwf’ torfol yn gysyniad y mae angen dychwelyd ato’n gyson.

Bydd y drafodaeth banel yn gyfle i drafod gwahanol ddulliau (arloesol) ac uchelgeisiau amlweddog rhaglenni presennol sy’n meithrin capasiti wrth gefnogi artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol i ddatblygu eu hymarfer rhyngwladol.

Co-funded by the European Union



Gyda chefnogaeth BRITISH COUNCIL

Gyda:
Mae **Milica Ilić** (y Llywydd) yn weithwraig ddiwylliannol annibynnol sy'n arbenigo mewn cydweithredu trawswladol. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar ymarfer sy'n creu llinyn cyswllt o'r newydd rhwng y sector celfyddydol a'i werthoedd cymdeithasol. Yn ei hymarfer, mae hi'n cefnogi prosiectau yn y sector diwylliannol ym meysydd cydweithredu rhyngwladol, hyfforddiant, ymchwil a gwerthuso, ac mae'n cyfrannu erthyglau'n rheolaidd at drafodaethau am arferion diwylliannol cyfoes. Cyn hyn, bu'n Gynghorwr Artistig yn Onda, y swyddfa yn Ffrainc sy'n hybu'r celfyddydau perfformio cyfoes, yn Rheolwr Cyfathrebu a Gweinyddu yn IETMS, y rhwydwaith rhyngwladol ar gyfer y celfyddydau perfformio cyfoes, ac yn Rheolwr Prosiect ym Mhrifysgol y Celfyddydau yn Belgrade. Bu hefyd yn gydlynydd ac yn un o sefydlwyr RESHAPE, prosiect ymchwil a datblygu arbrofol a edrychai ar ailddychmygu modelau sefydliadol y sector celfyddydau yn Ewrop a gwledydd deheuol Môr y Canoldir.

**Ouafa Belgacem** (Panelydd) yw sylfaenwr CFW-Culture Funding Watch, platfform gwybodaeth o bwys i'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol yn y De Byd-eang. Mae Quafa yn Uwch Arbenigwr Datblygu Busnes sydd â dros bymtheg mlynedd o brofiad yn dylunio ac yn ariannu rhaglenni cydweithio a datblygu rhyngwladol mewn cyd-destunau amrywiol (Affrica, Asia a MENA). Mae'n awdur ac gyd-awdur nifer o gyhoeddiadau am y diwydiannau diwylliannol a chreadigol, gan gynnwys: adroddiad am yr economi greadigol (UNESCO 2013), mapio polisïau diwylliannol yn rhanbarth MENA (UNESCO 2019), astudiaeth o'r economi greadigol yn Tunisia (2019), ac astudiaeth o'r celfyddydau a chwaraeon yn COMESA (2023). Enwyd Ouafa ymhlith y 100 o bobl greadigol mwyaf dylanwadol sy'n hanu o gefndir Affricanaidd yn 2021 ac ymhlith y 500 o Affricaniaid mwyaf grymus yn 2022. Mae'n gysylltydd/llysgennad i raglen Digital Affrica ar gyfer rhanbarth Gogledd Affrica ac yn gyfarwyddwr creadigol i'r Siambr Fasnach Draws-Affricanaidd.

**Tamar Janashia** (Panelydd) yw sylfaenydd a chyfarwyddwr y sefydliad nid-er-elw yn Tbilisi, Culture and Management Lab (CML), sy'n gweithio yn y maes cyfnewid celfyddydol a diwylliannol ac ar faterion sy'n ymwneud â pholisïau diwylliannol a datblygu'r diwydiannau creadigol yn strategol yn Georgia, Armenia, a Azerbaijan. Yn ogystal â rhedeg CML, mae hi hefyd yn gwasanaethu fel cydlynydd y Tbilisi Architecture Biennial. Mae ganddi brofiad amrywiol, helaeth o reoli prosiectau diwylliannol a gwaith ymgynghorol yn y Cawcasws, yng ngwledydd Canolbarth Asia, ac yn Ewrop. Ers 2021, mae hi wedi gweithio fel ymgynghorydd i'r rhaglen datblygu proffesiynol ar gyfer rheolwyr diwylliannol yn Kyrgyzstan (yn hyfforddi hyfforddwyr ac yn datblygu modiwlau addysgol), Tajikistan ac Uzbekistan. Rhwng 2018 a 2019, cydlynodd Tamar raglen meithrin capasiti i reolwyr diwylliannol o'r pum gwlad yng Nghanolbarth Asia ar gyfer y Goethe Institute Uzbekistan. Rhwng 2012 a 2017, bu CML yn Weinyddwr Cyffredinol y Rhaglen Celfyddydau a Diwylliant Ranbarthol i Dde'r Cawcasws, ar ran Swyddfa Gydweithredu'r Swistir. Mae Tamar hefyd yn gweithio fel ymgynghorydd busnes llawrydd ac yn rhoi gwasanaethau i amryw o sefydliadau lleol a rhyngwladol, sefydliadau academaidd a chwmnïau preifat ym meysydd rheoli cyffredinol, rheoli prosiectau, a datblygu.

Adnoddau:

Baybutt, A. (Tachwedd 2023). Equity in Working Conditions in Dance. Barcelona: EDN. Ar gael yn: https://www.ednetwork.eu/uploads/documents/237/EDN%20publication_Equity%20in%20Working%20Conditions%20in%20Dance%202023.pdf

Boon, E. (4 Gorffennaf 2019). 'What does cultural internationalisation mean anno 2021?'. Amsterdam:
DutchCulture. Ar gael yn:
https://dutchculture.nl/en/news/what-does-cultural-internationalisation-mean-anno-2021

Durrer, V., McGrath, A. a McAlister, E. (2023). By Working Together We Can Affect Change – Building Capacity for the Cultural Industries. Dulyn: Irish Research Council. Ar gael yn:
https://culturalpolicyireland.org/wp-content/uploads/2022/12/Shared-Island-Report_Digital_AW.pdf

Duxbury, N. a Vidović, D. (golygyddion). Study on Mobility in Culture: Perspectives of Artists / Cultural Professionals, Hosts and Funders. i-Portunus Houses. Cyfrol 2. Zagreb: Kultura Nova Foundation. Ar gael yn:
https://www.i-portunus.eu/wp-fuut/wp-content/uploads/2022/10/IPH_V2.pdf

Floch, Y. (Hydref 2022). Papur adnoddau: International Professional Development Programmes in the Performing Arts. Learning Trajectories. Stockholm: Eunia. Ar gael yn:
https://fresh-europe.org/sites/default/files/projects/resource_paper_eng_compressed.pdf

Jackie Bailey, J. (Tachwedd 2016). Guide to Mentoring. Sydney: AltusQ ac Australia Council for the Arts. Ar gael yn:
https://creative.gov.au/wp-content/uploads/2021/07/aca_guide-to-mentoring_2016_f-584f4208ee372-1.pdf

Janssens, J. et Fraioli, M. (2022). Research Results of Perform Europe. Brwsel: IETM. Ar gael yn:
https://www.ietm.org/system/files/publications/erform%20Europe_Results%20of%20the%20Mapping%20and%20Analysis.pdf

Co-funded by the European Union



Gyda chefnogaeth
BRITISH COUNCIL

# ‘Rhoi gwerth ar gydweithio diwylliannol rhyngwladol’

**Dydd Iau 25 Ebrill 2024, 16:45–18:00 UTC**

Theatr, Galeri Caernarfon ac ar-lein

Mae dolenni i gofrestru ar gael fan hyn (ar waelod y dudalen).

Mae rhoi gwerth ar gydweithio diwylliannol rhyngwladol yn gofyn am edrych yn fanwl tu hwnt ar y gwerthoedd a’r dilysrwydd gwaelodol, ac ar werth ymddangosiadol cydweithredu. Mewn oes sy’n llawn neo-genedlaetholdeb, mae’n hollbwysig meithrin gofal mewn cysylltiadau rhyngwladol.

Bydd gwerth cydweithio diwylliannol rhyngwladol yn meithrin tapestri cyfoethog o brofiadau cyffredin, safbwyntiau amrywiol, a dealltwriaeth ddyfnach o’r cyflwr dynol. Mae’r gwerthoedd sy’n gynhenid mewn cydweithio o’r fath yn cyfrannu at greu cymuned fyd-eang sydd wedi’i huno gan greadigrwydd a dealltwriaeth. Nid yn unig y bydd y cydweithio hwn yn hybu lleisiau artistiaid ar lwyfan y byd, ond bydd hefyd yn ddull grymus o greu cymdeithas fyd-eang gytûn.

Serch hynny, mae rhanddeiliaid yn pryderu’n gynyddol am gynaliadwyedd cydweithio diwylliannol rhyngwladol. Fel rhan o’r trafodaethau hyn, byddwn ni’n clywed lleisiau sy’n amlygu’r trafferthion gyda’n cadwyni gwerth artistig a’n hecosystemau diwylliannol.

Ar y naill law, mewn rhai o ranbarthau’r byd lle ceir anobaith a sefyllfaoedd sy’n gwaethygu, mae gwersi gwerthfawr i’w dysgu drwy weithio mewn cyd-destunau gelyniaethus. Bydd cwestiynau’n codi ynghylch y cyfrifoldeb i gynnal cysylltiadau rhyngwladol, ac ynghylch manteisio ar gyfleoedd a chynnal perthnasau. Bydd rhai’n dyfalbarhau â rhwydweithiau rhyngwladol, tra bydd eraill yn wynebu’r realiti anodd o orfod rhoi’r gorau i weithgarwch wrth i’r sefyllfa waethygu.

Ar y llaw arall, mae tuedd newydd i’w gweld lle bydd artistiaid ac unigolion diwylliannol yn dod o hyd i gyfleoedd rhyngwladol yn gynyddol yn eu cymunedau lleol. Gallai hyn fod yn arwydd o angen ehangach i ganolbwyntio ar sgiliau pobl, lles a chreu cymunedau at y dyfodol sy’n ffynnu drwy gydweithio, drwy amrywiaeth a thrwy ymrwymiad i weithio mewn ffyrdd cynaliadwy.

Bydd trafodaeth y panel yn edrych ar awch y rhanddeiliaid i gydweithio yn rhyngwladol ac yn edrych eto ar eu cymhellion a’u hanghenion wrth geisio creu a chynnal cysylltiadau.

Co-funded by the European Union



Gyda chefnogaeth British Council

Gyda:

Mae **Anna Galas-Kosil** (y Llywydd) yn guradur ac yn rheolwr diwylliannol, ac ar hyn o bryd yn gysylltiedig ag Arsyllfa Diwylliant Warsaw. Graddiodd o Academi Theatr Aleksander Zelwerowicz ac mae ganddi Ddiploma Ewropeaidd mewn Rheoli Prosiectau Diwylliannol. Bu'n rheoli'r Adran Cydweithio Rhyngwladol yn y Zbigniew Raszewski Theatre Institute (2011–2017) ac mae'n gyd-guradur ar fersiwn gyntaf ac ail fersiwn y Biennale Warszawa (2019, 2022). Cyflwynodd Anna nifer o brosiectau rhyngwladol, ynghyd â'u curadu, gan gynnwys cyflwyniad Gwlad Pwyl yn y Prague Quadrennial, rhaglen ryngwladol y Polska New Theatre, *Edible City Warsaw,* a'r *International Forum of Permaculture Educators* (roedd y ddau brosiect olaf o'r rhain yn edrych ar fodelau bwyd sy'n rhoi dewis arall yn lle'r model amaethyddol diwydiannol sy'n tra-arglwyddiaethu ar hyn o bryd).

Mae **Laura Ganza** (Panelydd) yn weithiwr diwylliannol-gymdeithasol sy'n argyhoeddedig ynghylch gallu'r celfyddydau a diwylliant i weddnewid pethau. Mae'i gwaith mewn sefydliadau nid-er-elw yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â dad-drefedigaethu yn y sector diwylliannol yn ogystal â'r sector 'cymorth datblygu'. A hithau'n rheolwr rhaglenni yn Africalia, mae hi'n gyfrifol am gyflwyno rhaglen Gwlad Belg, gyda phwyslais ar ddad-drefedigaethu a chynhwysiant yn sector diwylliannol Gwlad Belg. Mae'n gwneud hyn drwy hyrwyddo cynrychiolaeth ansoddol artistiaid a'r celfyddydau Affricanaidd yng Ngwlad Belg yn ogystal â thrwy eirioli dros ddad-drefedigaethu'r sector diwylliannol. Hi hefyd yw pwynt cyswllt rhaglenni Zimbabwe a Kenya, sy'n canolbwyntio ar atgyfnerthu'r broses sy'n grymuso actorion diwylliannol yn economaidd-gymdeithasol.

Mae **Sarah Philp** (Panelydd) yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Delfina Foundation, sef y rhaglen ryngwladol fwyaf ar gyfer preswylfeydd ym maes y celfyddydau gweledol yn y Deyrnas Unedig. Mae hi'n canolbwyntio ar bartneriaethau, strategaethau'r dyfodol, a chodi arian ar gyfer ymgyrch gyfalaf y sefydliad. Cyn ymuno a Delfina ym mis Mehefin 2023, roedd hi'n Gyfarwyddwr Rhaglenni a Pholisi yn Art Fund, lle bu'n gyfrifol am ddatblygu a darparu rhaglenni grantiau'r elusen, am roi cymorth i amgueddfeydd ac orielau, ac am bolisïau ac ymchwil yn y sector. Gweithiodd gyda phartneriaid ledled y wlad yn y sector amgueddfeydd a'r celfyddydau gweledol, gan lansio gwaith ymchwil newydd a chyllid i helpu'r sector i adfer ar ôl pandemig Covid-19. Mae Sarah yn un o'r aelodau a sefydlodd yr Association of Women in the Arts. Mae hi hefyd wedi cynghori sefydliadau gan gynnwys Gerry's Pompeii, y King's Cross Knowledge Quarter a'r Churches Conservation Trust, wedi mentora ar ran Arts Emergency, ac wedi bod yn ymddiriedolwr i'r Association for Art History a'r Michael Clark Company.

Adnoddau:

Cvetičanin, P. (Center for Empirical Cultural Studies of Southeast Europe) (Rhagfyr 2022). Crisis in Culture - Culture in Crisis. How Covid19 Pandemic Shaked the Cultural Work in SEE Societies. Zagreb: Regional platform for culture Kooperativa. Ar gael yn: https://platforma-kooperativa.org/wp-content/uploads/2023/01/CRISIS-IN-CULTURE-CULTURE-IN-CRISIS.pdf

Danig, S. (Rhagfyr 2022). IETM Report - Work & (in)stability. Brwsel: IETM. Ar gael yn: https://www.ietm.org/system/files/publications/IETM_Reports_03_Work%20and%20instability_03.pdf

De Moor, F. (May 2015). Study into cultural training courses in ACP countries. Technical assistance to the ACP Secretariat for the management of the EU-ACP support programme for the cultural sector (ACP Cultures+). Ar gael yn: https://eeas.europa.eu/archives/delegations/trinidad/documents/study_acp_cultural_training_courses_20160118_en.pdf

Hester, D. (2019). D.I.T. (Do It Together) – The position of the artist in today's art world. Kunstenpocket #3. Brwsel: Kunsten/Flanders Arts Institute. Ar gael yn: https://reshape.network/uploads/document/file/41/Kunstenpocket_3_EN.pdf

McNeilly, N. a Bernoville, G. (adroddwyr) (2022). International Cultural Relations: Perspectives and recommendations informed by the participants of the Voices of Culture Structured Dialogue on International Cultural Relations. Brwsel: Goethe-Institut. Ar gael yn: https://voicesofculture.eu/2022/10/24/brainstorming-re-port-international-cultural-relations-now-available-in-5-languages/

Overbergh, A. (Mawrth 2023). Art, crisis and transition. A Fair New World in the arts?! Kunstenpocket #4. Brwsel: Kunstenpunt/Flanders Arts Institute. Ar gael yn: https://wp.assets.sh/uploads/sites/4718/2023/02/Flanders-Arts-Institute-Art-crisis-and-transition-A-Fair-New-World-in-the-arts.pdf

Staines, J., Travers, S., a Chung, M. (2011). International Co-Production Manual. Brwsel: IETM a Korea Arts Management Service. Ar gael yn: https://www.ietm.org/en/system/files/publications/international_coprod_manual_1.pdf

## ‘Rhyngwladoli o’r cyrion’

**Dydd Gwener 26 Ebrill 2024, 9:45–11:00 UTC**

Theatr, Galeri Caernarfon ac ar-lein

Mae dolenni i gofrestru ar gael fan hyn (ar waelod y dudalen).

Mae’r cysyniad o ‘gyrion’ yn un cymharol, sy’n pwysleisio beth neu bwy sydd yn aml yn anweledig y tu allan i’r norm neu’r canol. Mae’r gallu i gael mynediad yn dal i fod yn broblem gyson, yn enwedig i’r rheini sy’n eu hystyried eu hunain ar y cyrion. Mae materion sy’n ymwneud â dilysrwydd yn amlwg dros ben – a yw unigolion diwylliannol yn teimlo’u bod wedi’u grymuso ac yn ddilys yn eu hymdrechion rhyngwladol, ynteu a ydyn nhw’n eu canfod eu hunain ar ymylon pethau wrth gamu am y tro cyntaf i’r byd rhyngwladol hwn?

Bydd diffinio beth sy’n creu’r canol neu’r cyrion yn dod yn gymhleth, a hynny ar adeg pan nad yw’r maes celfyddydau a diwylliant wastad yn ei ystyried ei hun yn ganolog i ddatblygu cymdeithasol, a phan fydd y canolfannau geowleidyddol hwythau’n cael eu herio. Er enghraifft, efallai y byddai rhywun wedi ystyried bod Canol a Dwyrain Ewrop ar y cyrion unwaith, ond mae’r ymosodiad ar Wcráin wedi rhoi’r rhanbarth yng nghanol Ewrop a’r byd gorllewinol erbyn hyn. Mewn byd llawn globaleiddio, ac yn enwedig yn achos cyfnewidfeydd diwylliannol rhyngwladol, mae modd pendroni pwy sy’n eu hystyried eu hunain yn bobl ar y cyrion a pham.

Mae’r cyrion bondigrybwyll yn ymddangos fel canolfannau dynamig lle ceir arbrofi diwylliannol ac arferion cynaliadwy – er enghraifft, mewn ardaloedd gwledig, rhanbarthau pellennig, gwledydd a thiriogaethau tramor a rhai rhanbarthau o’r ‘De Byd-eang’. Dyma awgrymu y gellir canfod cryfder mewn dulliau anghonfensiynol ac yn y cysylltiadau rhwng gwahanol gyrion. Mae natur y mannau yn y ‘canol’ yn newid, gyda chydnabyddiaeth bod arferion gwahanol o’r cyrion yn rhoi ffurf newydd i arferion gorllewinol a normadol. Er enghraifft, bydd cydweithio a dinasoedd llai o faint, sy’n cael eu gweld fel dinasoedd posibl y dyfodol, yn dangos bod ffordd fwy ddynol o fyw yn ffynnu ar y cyrion, gan gynnig manteision fel posibiliadau ariannol teg a phartneriaethau cytbwys.

Bydd trafodaeth y panel yn edrych ar sut y bydd cysylltiadau rhyngwladol yn deillio o ranbarthau a grwpiau sy’n aml yn cael eu diystyru, yn ogystal ag ar sut y gall rhaglenni meithrin capasiti baratoi’r byd diwylliannol ar gyfer datblygu modelau cynaliadwy.



Co-funded by the European Union

Gyda chefnogaeth

Gyda:
Mae **Katelijn Verstraete** (y Llywydd) yn ymgynghorydd diwylliannol annibynnol sydd â dros 20 mlynedd o brofiad yn y sector busnes a'r sector creadigol, ynghyd ag yn y maes cysylltiadau rhyngwladol rhwng Ewrop ac Asia. Symudodd o'r sector busnes yn Tsieina i gyd-sefydlu'r gofod celfyddydol annibynnol cyntaf (ar y pryd) yn Shanghai (BizArt). Bu hefyd yn datblygu hyfforddiant, yn darparu gwybodaeth ac yn gwneud gwaith cyfathrebu i IETM, y rhwydwaith rhyngwladol ar gyfer y celfyddydau perfformio cyfoes, ac i On the Move. Arweiniodd raglenni cyfnewid diwylliannol rhwng Asia ac Ewrop yn yr Asia-Europe Foundation (ASEF), ac arweiniodd waith y British Council yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol mewn 14 o wledydd yn Nwyrain Asia. Yno, datblygodd raglenni arloesol ar gyfer gwledydd a rhanbarthau a oedd yn cryfhau'r rhwydweithiau rhwng Prydain Fawr ac Asia drwy gyfnewidfeydd artistig a datblygu sgiliau, a thrwy gryfhau cyfraniad y celfyddydau a diwylliant at ddatblygu cynaliadwy. Mae Katelijn yn un o sylfaenwyr ReflAction Works, sefydliad ymgynghorol diwylliannol sy'n canolbwyntio ar ymchwil, ysgrifennu, gwerthuso a rheoli prosiectau yn y maes cysylltiadau artistig a diwylliannol i sefydliadau fel IETM, EUNIC, On the Move, ASEAN Foundation, British Council, Dutch Culture, Cultural Relations Platform, AVPN, a'r Flanders Arts Institute.

**Marwane Fachane** (Panelydd) yw Rheolwr-Gyfarwyddwr Hiba Foundation, sefydliad nid-er-elw yn Morocco a gafodd ei ffurfio yn 2006 gan Ei Fawrhydi y Brenin Mohamed VI. Mae'r sefydliad yn gweithio i ddatblygu a hyrwyddo'r meysydd diwylliannol ac artistig yn Morocco. Ei brif genhadaeth yw strwythuro a phroffesiynoli'r meysydd hyn drwy nifer o raglenni a gofodau sy'n cael effaith fawr. Bydd pwyslais y sefydliad dros y 5 mlynedd nesaf ar gryfhau a datblygu'r sector diwydiannau creadigol yn Morocco, ar gyflwyno rhaglenni addysgol a galwedigaethol ar gyfer camau cynnar plentyndod, ac ar hybu cynhwysiant economaidd-gymdeithasol a chreu swyddi yn y sector diwylliannol. Mae Hiba Foundation hefyd yn un o'r partneriaid a sefydlodd ac sy'n trefnu Visa for Music, sydd wedi'i sefydlu'i hun fel y farchnad broffesiynol fwyaf ar gyfer y diwydiant cerddorol yn Affrica a rhanbarth MENA.

Mae **Dr Kim-Marie Spence** (Panelydd) yn hanu o Jamaica ac mae'n ddarlithydd mewn Rheoli Celfyddydol a Pholisi Diwylliannol ym Mhrifysgol Queen's (Gogledd Iwerddon, y Deyrnas Unedig). Mae hefyd yn ddarlithydd cynorthwyol mewn astudiaethau ffilm yn yr Ysgol Cyfryngau a Chyfathrebu Caribïaidd ym Mhrifysgol India'r Gorllewin (Jamaica). Mae hi'n ymchwilio i ddiwydiannau a pholisïau ym maes diwylliant poblogaidd y tu allan i'r Gorllewin, gyda phwyslais ar ddiwydiannau cerddoriaeth K-pop a reggae. Mae gan Kim-Marie ddiddordeb penodol mewn patrymau (newydd) mewn polisïau diwylliannol, diwydiannau diwylliannol y tu allan i'r Gorllewin, a dinasoedd creadigol. Mae hi'n un o Ysgolheigion Rhodes ac yn gyn-Gomisiynydd Ffilmiau Jamaica, ac mae hi wedi gweithio gyda UNESCO ar y Rhestr Gynrychioladol o Dreftadaeth Lafar ac Anniriaethol. Mae hi hefyd yn gyd-awdur *Global Cultural Economy (Routledge 2019).* Mae hi'n aelod o fyrddau MAC Belfast, sefydliad celfyddydol gyfoes blaenllaw yng Ngogledd Iwerddon, a Kingston Creative, cynllun yn Jamaica i greu ardal ddiwylliannol.

Adnoddau:

García-Dory, F., Michałowski, P. a H. Drane, L. (Mawrth 2020). Arts in rural areas. Fresh Perspectives #9. Brwsel: IETM. Ar gael yn:
https://www.ietm.org/system/files/publications/ietm_art_in_rural_version_4b.pdf

Voices of Culture (2020). Brainstorming Report: The Role of Culture in Non-Urban Areas of the European Union. Brwsel: Goethe-Institut. Ar gael yn:
https://voicesofculture.eu/wp-content/uploads/2020/04/VoC-Brainstorming-Report-Role-of-Culture-in-Non-Urban-Areas-of-the-EU.pdf

Brokering Intercultural Exchange, A Research Network Exploring the Role of Arts and Cultural Management: mae'r rhwydwaith hwn yn ceisio deall rôl y celfyddydau a rheolwyr diwylliannol fel broceriaid rhyngddiwylliannol yng nghyd-destun globaleiddio, rhyngwladoli a mudo byd-eang.
https://managingculture.net

Durrer, V., a Henze, R. (Golygyddion) (2020). Managing Culture: Reflecting on Exchange in Global Times. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Martinka Bobrikova ac Oscar de Carmen, Pau Cata, Petr Dlouhy, Heba el-Cheikh, Gjorgje Jovanovik, Marta Keil, Dominika Święcicka, Marine Thévenet, Ingrid Vranken (9 Rhagfyr 2020). Transnational and Postnational Practices Manual. RESHAPE. Ar gael yn:
https://reshape.network/prototype/transnational-and-postnational-practices-manual

Spence, K.-M. (2023). At least a Two-Way Street – decolonising arts management curricula in Kingston and Belfast. Irish Journal of Arts Management and Cultural Policy, 10. Ar gael yn
https://www.culturalpolicy.ie/index.php/ijamcp/article/view/2699

Vidović, D. et Žuvela, A. (2022). 'Conclusion and Recommendations – Towards Sustainable Mobility', in Duxbury, N. and Vidović, D. (Golygyddion). Study on Mobility in Culture: Perspectives of Artists / Cultural Professionals, Hosts and Funders. i-Portunus Houses. Cyfrol 2. Zagreb: Kultura Nova Foundation. Ar gael yn:
https://www.i-portunus.eu/wp-fuut/wp-content/uploads/2022/10/IPH_V2.pdf

## ‘Cydweithio yn rhyngwladol yn y dyfodol: sgiliau’r dyfodol a safonau’r dyfodol’

**Dydd Gwener 26 Ebrill 2024, 11:30–12:45 UTC**

Theatr, Galeri Caernarfon ac ar-lein

Mae dolenni i gofrestru ar gael fan hyn (ar waelod y dudalen).

Wrth ystyried cydweithio rhyngwladol yn y dyfodol, byddwn ni’n aml yn gweld bod gwerthoedd fel gofal, haelioni a lletygarwch yn ymddangos yn elfennau hollbwysig, ochr yn ochr â’r angen i sefydlu neu gryfhau safonau uchelgeisiol ar gyfer amodau gweithio artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol.

Mae datblygu prosiectau diwylliannol sy’n croesi ffiniau yn galw am sgiliau caled a meddal ill dau. Serch hynny, mewn byd sy’n newid yn gyflym tu hwnt, a hwnnw’n llawn argyfyngau ac anghydfodau niferus, mae’n teimlo bod angen bwrw golwg ddwys ar ein gallu, a hynny er mwyn cryfhau ein capasiti i wrthsefyll pethau a bod yn wydn. Mae’r ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb ac anghydbwysedd hefyd yn galw am ddull mwy holistig o weithio, gan gyfuno dull sy’n canolbwyntio ar bobl ag ymrwymiad o’r newydd i feithrin dealltwriaeth rhwng diwylliannau.

Bydd sgiliau ymarferol yn flaenllaw: o ddeall mân wahaniaethau diwylliannol lleol i reoli prosiectau artistig trawswladol yn effeithlon; o lunio modelau busnes newydd i fynd i’r afael â rhagfarnau a chysylltiadau grym; o ddelio â ffiniau caeedig neu artistiaid alltud i feithrin cydweithio llorweddol a theg.

Serch hynny, bydd rhywun yn pendroni sut y gallwn ni ddeall a bod mewn sefyllfa i weithredu mewn cyd-destunau gwahanol a ninnau’n ceisio rhoi sylw i flaenoriaethau llorweddol fel cynaliadwyedd amgylcheddol neu ymwneud â chymunedau lleol. Hefyd, sut y gallwn ni gydnabod a rhoi gwerth ar brofiadau bywyd a gwybodaeth benodol, gan roi lle blaenllaw ar yr un pryd i’r arbenigwyr sydd ar lawr gwlad?

Bydd trafodaeth y panel yn edrych ar gymhlethdodau cydweithio yn rhyngwladol ac yn helpu i ganfod y sgiliau hollbwysig ar gyfer yfory. Gofynnir sut y gallwn ni roi canllawiau ynghylch materion sensitif fel sensoriaeth, rhyddid mynegiant artistig, amrywiaeth mewn mynegiant diwylliannol, amrywiaeth y boblogaeth, hawliau dynol, traddodiadau diwylliannol a chrefyddol, elfennau hanesyddol cyd-ddibynnol, gwrthdaro, neu anghydfodau gwleidyddol. Cynigir bod cynaliadwyedd yn ymestyn y tu hwnt i rethreg, a bod angen ei drosi yn ganllawiau, yn gynghreiriau ac yn gymorth pendant i ymarferwyr unigol.

Gyda:

Mae **Giuliana Ciancio** (un o'r Llywyddion) yn ymchwilydd, yn rheolwr diwylliannol, ac yn ddarlithydd sy'n weithgar yn rhyngwladol ym maes y celfyddydau perfformio, cydweithio diwylliannol rhyngwladol, a pholisïau diwylliannol Ewropeaidd. Drwy gydol ei gyrfa, mae Giuliana wedi creu, curadu a chydlynu prosiectau mawr, llwyddiannus yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n defnyddio strategaethau i sicrhau cyfranogiad diwylliannol gan randdeiliaid niferus (fel Be SpectACtive! 2014–2021). Mae ganddi PhD mewn Rheolaeth, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio fel ymchwilydd ôl-ddoethurol yn y Culture Commons Quest Office (CCQO) ym Mhrifysgol Antwerp yng Ngwlad Belg, lle mae hi'n ymchwilio i ddylanwad emosiynau gwleidyddol ar bolisïau diwylliannol a thrafodaethau gwleidyddol. Mae Giuliana hefyd yn gyd-sylfaenydd ac yn aelod o fwrdd y fenter Eidalaidd Liv.in.g. (Live Internationalisation Gateway); mae'n rhannu'i harbenigedd fel darlithydd (yn yr European Institute of Design – IED a'r Fondazione Fitzcarraldo yn yr Eidal, ymhlith llefydd eraill); ac mae'n cyhoeddi erthyglau Saesneg ac Eidaleg mewn cyfnodolion academaidd a phoblogaidd sy'n trafod ymgyrchu diwylliannol, arferion cyfranogol, polisïau diwylliannol a gwleidyddiaeth ddiwylliannol.

Mae **Carlotta Garlanda** (un o'r Llywyddion) yn rheolwr prosiectau llawrydd sy'n gweithio ym maes dylunio a rheoli prosiectau diwylliannol. Ar hyn o bryd, yn ogystal â gwneud gwaith ymgynghori a hyfforddi ym maes dylunio prosiectau, mae'n gyd-sylfaenydd ac yn aelod o fwrdd Liv.in.g.– Live Internationalisation Gateway – ac yn Rheolwr Cyffredinol y cwmni dawns cyfoes yn yr Eidal, MK. Bu'n guradur a hyrwyddodd artistiaid dawns Eidalaidd yn rhyngwladol, ac mae hi wedi cyfrannu at astudiaethau ym maes dawns. Bu hefyd yn aelod o fwrdd y theatr genedlaethol, Teatro di Roma a'r cwmni cydweithredol, SMartit. Mae hi wedi cymryd rhan mewn nifer o raglenni fel crëwr, curadur, ymgynghorydd neu bartner, gan gynnwys: dwy fersiwn gyntaf 'Fabulamundi. Playwriting Europe', 'Contact Zones' a 'T.E.E.N.', yr 'IYME International Young Makers Exchange' (yr holl brosiectau hyn wedi'u hariannu gan y Rhaglen Ddiwylliant ac Ewrop Greadigol), a fersiwn gyntaf 'Script and Pitch' (a ariannwyd gan Raglen y Cyfryngau). Mae hi hefyd wedi bod yn rhan o gydweithio gyda'r ŵyl amlddisgyblaethol, Festival Romaeuropa, Gweinyddiaeth Ddiwylliant yr Eidal, a Swyddfa Materion Tramor y sefydliad cyhoeddus, ETI Ente Teatrale Italiano.

Bu **Vânia Rodrigues** (Panelydd) yn gweithio fel rheolwr ac ymgynghorydd celfyddydol i nifer o sefydliadau diwylliannol ym Mhortiwgal ac yn rhyngwladol cyn troi at ddilyn gyrfa fel ymchwilydd. Mae ei llwybr proffesiynol wedi croesi nifer o sefydliadau artistig, o theatrau cenedlaethol i gwmnïau theatr annibynnol. Mae hi'n parhau i gymryd rhan yn rheolaidd mewn cynlluniau ym meysydd rheoli a chynhyrchu celfyddydol, polisïau diwylliannol, cynllunio strategol a chydweithredu diwylliannol trawswladol. Mae ganddi Ph.D. mewn Astudiaethau Artistig – Astudiaethau'r Theatr a Pherfformio o Brifysgol Coimbra, a Gradd Meistr mewn Polisïau Diwylliannol a Rheoli Celfyddydol o'r City University of London. Ar hyn o bryd, mae'n cydlynu'r Diploma Ôl-raddedig mewn Rheoli Celfyddydol a Chynaliadwyedd ym Mhrifysgol Coimbra ac yn cyd-gyfarwyddo'r platfform ymchwil, Modes of Production – Performing Arts in Transition, yn ogystal â'r prosiect archwilio, GREENARTS (FCT), sy'n edrych ar y rhyngblethu rhwng bydoedd cynhyrchu a chreu a'r ffordd y bydd cynyrchiadau artistig yn gweddnewid yn ymresymiadol ac yn ymarferol yn wyneb y galw cynyddol am gynaliadwyedd

cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae **Nike Jonah** (Panelydd) yn gweithio yn y maes datblygu strategol drwy'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol yn fyd-eang, ac ar hyn o bryd mae'n Gyd-Gyfarwyddwr Gweithredol y Pan-African Creative Exchange (PACE) yn Ne Affrica, sefydliad amlhaenog ac aml-blatfform sy'n gweithredu'n bennaf fel marchnad gelfyddydau bob eilflwydd a honno'n defnyddio pryfocio fel ffordd o hyrwyddo'r celfyddydau rhyngddisgyblaethol yn Affrica. Rhwng 2017 a 2020, bu'n Gymrawd Ymchwil Gwadd yn y Royal Central School of Speech and Drama, a arweiniodd at ei phwnc ymchwil presennol, sef rhwydweithiau perfformio traws-Affricanaidd. Rhwng 2008 a 2012, bu'n arwain y rhaglen Decibel ar ran Arts Council England, rhaglen a geisiai gefnogi artistiaid Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd. Mae Nike yn ymddiriedolwr ar fyrddau'r Birmingham Contemporary Music Group a'r Royal Africa Society.

<u>Adnoddau:</u>

Artistic Freedom Monitor by the Artistic Freedom Initiative:
https://artisticfreedominitiative.org/projects/artistic-freedom-monitor/

Bell, L. (Rhagfyr 2022). IETM Report - Feminist leadership. Brwsel: IETM. Ar gael yn:
https://www.ietm.org/system/files/publications/IETM_Reports_02_Feminist%20leadership_03.pdf

Y Comisiwn Ewropeaidd:
- Dogfen gyfathrebu am Agenda Sgiliau Ewrop ar gyfer cystadleurwydd cynaliadwy, tegwch cymdeithasol a gwydnwch
https://ec.europa.eu/social/BlobServlet?docId=22832&langId=en
- Blwyddyn Ewropeaidd Sgiliau
https://year-of-skills.europa.eu/about_en
- Agenda Sgiliau Ewrop
https://ec.europa.eu/social/main.jsp?catId=1223
- Cytundeb ar gyfer Sgiliau
https://pact-for-skills.ec.europa.eu/about_en
- Partneriaeth ar Raddfa Fawr ar gyfer y Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol
https://pact-for-skills.ec.europa.eu/about/industrial-ecosystems-and-partnerships/creative-and-cultural-industries_en

Prosiect Erasmus+ "SHIFT":
- ynghylch cynaliadwyedd amgylcheddol
https://shift-culture.eu/achieve-environmental-sustainability-in-your-work/
- ynghylch cysylltiadau grym a rhywedd
https://shift-culture.eu/empower-gender-on-sexual-harassment/
- ynghylch cynnwys lleiafrifoedd
https://shift-culture.eu/inclusion-accessibility-cultural-organisation/inclusion-article-on-cultural-projects/
- ynghylch arweinyddiaeth ddiwylliannol
https://shift-culture.eu/training-on-cultural-leadership/

Y Comisiwn Ewropeaidd, Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar gyfer Addysg, Ieuenctid, Chwaraeon a Diwylliant (2022). Stormy times. Nature and Humans: Cultural Courage for Change: 11 messages for and from Europe. Lwcsembwrg: Swyddfa Gyhoeddiadau yr Undeb Ewropeaidd. Ar gael yn:
https://op.europa.eu/en/publication-detail/-/publication/0380f31c-37c9-11ed-9c68-01aa75ed71a1/language-en/format-PDF/source-272152670

Heinsius, J. a Kai Lehikoinen, Kai (2013). Training Artists for Innovation: Competencies for New Contexts. Kokos Publications Series 2. Helsinki: Theatre Academy of the University of the Arts Helsinki. Ar gael yn:
https://on-the-move.org/files/training-artists-new-contexts.pdf

Kuzmanović, M. (17 Ebrill 2019). The Art of Futuring: Unknown, Unknowable and Uncertain. RESHAPE. Ar gael yn:
https://reshape.network/article/the-art-of-futuring-unknown-unknowable-and-uncertain

Rodrigues, V. (15 Ebrill 2019). How is this enough? Rethinking cultural management. RESHAPE. Ar gael yn:
https://reshape.network/article/how-is-this-enough-rethinking-cultural-management

Rodrigues, V., Matos de Oliveira, F., Ventura, A. (2024). PART FOR THE WHOLE. Report of the Survey “Ecological and Sustainable Practices in the Performing Arts in Portugal”. Coimbra: Centre for Interdisciplinary Studies. Ar gael yn:
https://www.uc.pt/en/ceis20/projects/modesofproduction/publications/#report-a-part-for-the-whole-report-of-the-survey-sustainable-and-ecological-practices-on-the-performing-arts-in-portugal

Voices of Culture (2018). Brainstorming Report: Skills, training & knowledge transfer in cultural heritage. Brwsel: Goethe-Institut. Ar gael yn:
https://www.voicesofculture.eu/wp-content/uploads/2018/06/VoC-Skills-and-training-Final-report-with-Appendix1.pdf